Adran Gwaith a Phensiynau

# Cael help gan **Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn**

**Hawdd i'w Ddarllen**



Ein cyfeirnod: **SSMG1WER** 08/23

# Cynnwys

Adran Gwaith a Phensiynau


1 Cyflwyniad
Tudalen 3





2 Pwy all hawlio
Tudalen 5





3 Os oes gennych blant dan 16 oed eisoes
Tudalen 7






4 Os nad ydych yn rhoi genedigaeth
Tudalen 9

# 1 Cyflwyniad

Adran Gwaith
a Phensiynau

Mae **Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn** yn help y gallwch ei gael gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.



Mae'r cymorth yn arian a elwir yn **grant**.

Ni fyddai'n rhaid i chi dalu'r arian yn ôl.




Os gallwch gael y grant, bydd yn **daliad untro**.



Mae'r arian hwn i helpu gyda chostau cael plentyn.



Ni allwch gael Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn os ydych yn byw yn yr Alban.

Os ydych yn byw yn yr Alban mae grantiau eraill ar gael.

Ewch i www.mygov.scot/best-start-grant-best-start-foods




Bydd y wybodaeth hon yn dweud wrthych **pwy** all hawlio Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn.

I gael rhagor o wybodaeth Hawdd i'w Ddarllen am Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn, ewch i www.gov.uk

Chwiliwch am **Easy Read Sure Start Maternity Grant**.

# 2 Pwy all hawlio



Fel arfer i gael Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn, mae rhaid i chi neu'ch partner:

- Bod yn feichiog gyda'ch plentyn cyntaf neu wedi cael babi yn ddiweddar
- Cael rhai budd-daliadau.



Bydd rhaid i chi wneud eich cais **cyn bod** eich babi yn 6 mis oed.

UC Credyd Cynhwysol

I gael y grant, bydd **rhaid** i chi neu'ch partner **gael** un o'r budd-daliadau hyn:

- Credyd Cynhwysol

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm

- Credyd Pensiwn
- Credyd Treth Plant
- Credyd Treth Gwaith (a gewch oherwydd anabledd).




Efallai y byddwch hefyd yn gallu cael y grant os ydych yn cael benthyciad Cymorth ar gyfer Llog Morgais.

# 3 Os oes gennych blant dan 16 oed eisoes



Mae'n bosibl y byddwch yn dal i allu cael Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn os oes gennych blant o dan 16 oed eisoes.



Efallai eich bod yn gofalu am blentyn sy'n perthyn i rywun arall (ond nid eich partner) ac mae'n byw gyda chi'n llawn amser.



Mae'n rhaid bod y plentyn wedi bod yn 12 mis oed o leiaf pan wnaethoch ddechrau gofalu amdano.



Gallai'r math hwn o ofal fod:

- Gofal teulu a ffrindiau, a elwir hefyd yn ofal gan berthnasau
- Maethu preifat.

I gael rhagor o wybodaeth am ofalu am blentyn rhywun arall ewch i
[www.gov.uk/looking-after-someone-elses-child](http://www.gov.uk/looking-after-someone-elses-child)



Efallai y byddwch hefyd yn gallu gwneud cais am Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn os:

- Ydych yn disgwyl mwy nag un babi (genedigaethau lluosog, fel efeilliaid)



- Ydych wedi cael statws ffoadur neu amddiffyniad dyngarol ac mae gennych blentyn neu blant o'r cyfnod cyn i chi gyrraedd y DU.

# 4 Os nad ydych yn rhoi genedigaeth



Efallai y byddwch hefyd yn cael grant os ydych yn gwneud cais ar gyfer aelod o'r teulu sy'n cael eu plentyn cyntaf ac sy'n byw gyda chi.



Mae rhaid i'r aelod hwnnw o'r teulu fod naill ai:

- Dan 16 oed



- 16 i 19 oed ac mewn addysg neu hyfforddiant cymeradwy.

I gael rhagor o wybodaeth am addysg neu hyfforddiant cymeradwy, ewch i www.gov.uk/further-education-courses





Efallai y gallwch gael Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn os ydych yn **mabwysiadu plentyn**.

?

**Esbonio mabwysiadu**

Weithiau ni all plant aros gyda'u rhieni biolegol neu eu teuluoedd.

Mae **mabwysiadu** yn ffordd gyfreithiol o roi teulu newydd i'r plant hynny. Nid y person sy'n mabwysiadu'r plentyn yw'r rhiant genedigol ond mae'n cytuno i ofalu am y plentyn fel pe bai'n rhiant naturiol iddo.




I gael y grant, mae angen i chi fod ar un o'r budd-daliadau a grybwyllir ym mhennod 2 **Pwy all hawlio**, a restrir ar dudalennau 5 ac 6.



Os ydych yn mabwysiadu plentyn neu'n rhiant sydd â **gorchymyn cymhwyso**, mae rhaid i chi:

- Cael y babi yn eich gofal ar gyfer ei fabwysiadu





- Wedi dod yn gyfrifol am y babi ac nid chi yw'r fam

**Esbonio gorchymyn cymhwyso**

Mae **gorchymyn cymhwyso** yn esbonio pwy sy'n gofalu am blentyn ac fel arfer mae'n gyfraith neu'n orchymyn a osodir yn y llys.

Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- Gorchymyn trefniant plentyn
- Gorchymyn rhieni
- Mabwysiadu.



- Bod yn warcheidwad y plentyn, yn unol â'r gyfraith




- Cael gorchymyn mabwysiadu neu **drefniant plentyn**

?

**Esbonio gorchymyn trefniant plentyn**

**Gorchymyn trefniant plentyn** yw pan fydd cyfraith yn cael ei gosod mewn llys sy'n cytuno neu'n penderfynu ble a gyda phwy y bydd plentyn yn byw.



- Wedi cael caniatâd i fabwysiadu babi o dramor



- Wedi cael **gorchymyn rhiant** gan llys ar gyfer genedigaeth ddirprwy.

?

**Esbonio gorchymyn rhiant**

**Gorchymyn rhiant** yw pan fydd cyfraith yn cael ei gosod mewn llys sy’n cytuno neu’n penderfynu ble a gyda phwy y bydd plentyn yn byw.

I gael rhagor o wybodaeth am bwy all gael Grantiau Mamolaeth Cychwyn Cadarn, ewch i www.gov.uk/grant-mamolaeth-cychwyn-cadarn/cymhwyster